


## **SIOE LLANBEDR**



## **LLANBEDR SHOW**

**31 Awst / August 2015**



Mynediad i'r Sioe: Oedolion - £1, plant am ddim  
Admission to Show: Adults - £1, children free

## **Trefn y diwrnod**

9:00am	Y neuadd ar agor i gystadleuwyr
12:00pm	Cau'r neuadd ar gyfer beirniadu
2:00pm	Y neuadd yn agor i'r cyhoedd
2:10pm	Agoriad swyddogol y Sioe gan Mr Gwyn Morris, Tan y Bryn, Llanbedr a bendith gan y Parchedig Philip Chew
3.00pm	Adloniant
3:45pm	Cyhoeddi enwau'r enillwyr gan Major John Ingham a chyflwyno'r cwpanau gan Faer Rhuthun, y Cynghorydd Anne Roberts

## **Aelodau'r Pwyllgor 2014**

**Cadeirydd:** Mr Huw Williams

**Is-gadeirydd:** Mrs Susan Hughes

**Ysgrifennydd:** Mrs Sandra Williams

**Trysorydd:** Mrs Gillian Smith

**Pwyllgor:** Mrs Jilly Bancroft

Mrs Pauline Hinchliffe

Major John Ingham

Mrs Julie Molyneux

Mr Richard Thomas

Mrs Bethan Wildbur

Parch. Philip Chew

## RHEOLAU CYFFREDINOL SIOE LLANBEDR 2014

1. Dylai'r rhai sydd am gystadlu lenwi'r ffurflen yn y llyfryn hwn a'i gadael yn y blwch cystadlu Swyddfa Bost Llanbedr neu yn y Griffin neu ei hanfon at yr Ysgrifennydd - Mrs Sandra Williams, Rhesgoed, Llanbedr DC, Rhuthun, LL15 1YE (01824 709750) neu e-bost i [williams@dolwar91.freeserve.co.uk](mailto:williams@dolwar91.freeserve.co.uk) erbyn **hanner dydd, dydd Llun 24 Awst 2015, os gwelwch yn dda.**
2. Bydd y Neuadd ar agor o 9 o'r gloch y bore ar 31 Awst, a rhaid gosod yr holl eitemau ar gyfer y cystadlaethau erbyn hanner dydd. Ni ddylid mynd ag unrhyw eitemau o'r neuadd tan ar ôl cyflwyno'r cwpanau.
3. Rhaid i gystadleuwyr fyw yn ward Llanbedr Dyffryn Clwyd a Llangynhafal neu fod â chysylltiad teuluol ag un o drigolion Llanbedr.
4. Rhaid i gystadleuwyr yn nosbarthiadau'r plant nodi eu hoedran ar y ffurflen gystadlu.
5. Mae'r Pwyllgor yn cadw'r hawl i atal gwobrau.
6. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golled, difrod nac anaf. Amod cystadlu yw bod cyfranogwyr yn defnyddio'r neuadd yn synhwyrol a dylid sicrhau nad oes dŵr, deunydd planhigion ac ati yn achosi perygl.
7. Ni ddylid symud nac addasu'r eitemau ar ôl eu gosod ar gyfer eu beirniadu, ac eithrio gan stiwardiaid y sioe.
8. Dylid rhoi un enw yn unig ar y ffurflen gystadlu.

**Diolch o galon i Feirniaid a Stiwardiaid bob Adran eleni**

<b>Adran</b>	<b>Beirniad</b>	<b>Stiward</b>
Cynnyrch gardd	Mr Bryn Roberts, Dinbych	Mrs Jilly Bancroft
Blodau	Mrs Mair Roberts, Dinbych	Mrs Julie Molyneux
Cynnyrch cartref	Mrs Eileen Morris, Llanbedr	Mrs Susan Hughes
Gwaith llaw	Mrs Susan Jean Moore, Llanferres	Mrs Bethan Wildbur
Ffotograffeg	Mr Don Jackson-Wyatt, Llandyrnog	Mrs Gillian Smith
Plant	Mr Emrys Wynne a Mrs Janet Wynne, Rhuthun	Mrs Pauline Hinchliffe
Anifeiliaid Anwes y Plant	Parch. Philip Chew	Mr Richard Thomas a Mr Huw Williams
Gerddi Gorau	Mr Stephen Roberts, Llanrhydd	Major John Ingham

## **Croeso gan y Cadeirydd**

Hoffwn ddiolch i'r gymuned yn ei chyfanrwydd am y gefnogaeth i'r Sioe hon, sy'n un o'r prif ddigwyddiadau yng nghalendr Llanbedr.

Eleni mae gennym ni adran Anifeiliaid Anwes y Plant yn hytrach na chyfyngu'r dosbarth i gŵn yn unig, a gobeithiwn weld amrywiaeth o anifeiliaid anwes ar y diwrnod. Hoffwn annog gymaint o gystadleuwyr ag y bo modd, os gwelwch yn dda.

Hefyd am y tro cyntaf eleni mae gennym ni gwpanau i'w cyflwyno i enillwyr adrannau'r plant, a roddwyd drwy garedigrwydd Mr Lyn Evans, Llanbedr, er cof am ei wraig, Lesley.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi rhoi cefnogaeth ariannol i'r Sioe – yn enwedig yr hysbysebwyrr, ac fe'ch annogaf i gefnogi'r busnesau lleol hyn.

Diolch o galon hefyd i'r beirniaid ac i dîm gweithgar Pwyllgor y Sioe sy'n gweithio'n galed yn wirfoddol drwy'r flwyddyn i sicrhau cynnal y digwyddiad hwn.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at eich croesawu chi i'r sioe, a chael sgwrs hamddenol dros baned a chacen.

**Cynghorydd Huw Williams, Cadeirydd Sioe Llanbedr**

### **Adran Cynnyrch Gardd**

1. 5 tomato efo'r calycs
2. 3 taten
3. 3 gwreiddlysieuyn efo dail, ac eithrio tatws
4. 6 coden o bys / ffa
5. 3 nionyn
6. Basged o lysiau – isafswm o 4 gwahanol fath
7. 3 coes riwbob, wedi eu tocio
8. 6 wy gan ieir anfasnachol

### **Adran Blodau**

9. Fâs o dahlias cymysg
10. Un rhosyn
11. 5 rhosyn mewn fâs
12. 5 pys pêr mewn fâs
13. Fâs o 3 blodyn ac eithrio'r rhai a enwir yn yr adran hon
14. Planhigyn blodeuol mewn pot
15. Basged grog

### **Adran Cynnyrch Cartref**

16. Pot o siytni/picls
17. Pot o jam
18. Pot o farmalêd
19. Cacen sbwng Fictoria – llenwad jam yn unig
20. Bara brith

21. 2 rholen selsig
22. Eitem lysieuol wedi ei bobî, addas ar gyfer picnic

### **Adran Gwaith Llaw**

23. Cerflun
24. Cerdyn cyfarch
25. *Collage* tecstilau
26. Dilledyn wedi ei wau
27. Unrhyw eitem arall wedi ei wau
28. Llun – olew, acrylig, dyfrlliw ac ati
29. Gemwaith wedi'i wneud â llaw
30. Eitem o waith gwnîo â llaw

### **Adran y Plant**

#### **Cyn-ysgol – Blwyddyn 2**

31. Llun o fy nheulu
32. *Collage* sborion o bob math
33. Eitem wedi ei greu efo Lego
34. Tusw o chwyn mewn pot jam
35. Bisged wedi ei haddurno

#### **Blwyddyn 3 - 6**

36. Hunan bortread
37. Llun – unrhyw gyfrwng
38. 4 o gacennau bach wedi'u haddurno
39. Gardd fechan – uchafswm maint 30cm x 30cm

40. Cerdd am fy hoff berthynas – yn Gymraeg neu'n Saesneg

### **Blwyddyn 7 – 13**

41. Ffotograff wedi ei gynhyrchu ar gyfrifiadur

42. *Collage* botymau

43. Te prynhawn i ddau

44. Symudyn ar gyfer babi – thema 'Yn yr Ardd'

### **Adran Ffotograffeg**

- uchafswm maint A4, heb ei fframio, wedi ei osod ar gerdyn

45. Du a gwyn – ffotograff wedi'i dynnu yn y plwyf, yn nodi'r lleoliad

46. Lliw – agored

### **Adran Anifeiliaid Anwes y plant – i'w feirniadu am 3 o'r gloch y prynhawn**

47. Y ci gorau

48. Y gath orau

49. Y cnofil gorau

50. Unrhyw anifail anwes arall





***(Darn ychwanegol – os oes unrhyw le gwag!!!!)***

Mae Pwyllgor Neuadd Llanbedr DC yn awyddus i gynnal Clwb 100 unwaith eto eleni i godi arian tuag at gostau'r neuadd. Hoffem eich gwahodd chi i fod yn aelod o'r Clwb 100 a fydd yn ailgychwyn ym mis Medi 2015. Dim ond £12 am y flwyddyn.

Bydd ffurflenni ymaelodi ar gael yn ystod Sioe Llanbedr, neu mae croeso i chi gysylltu ag un ai Anita Mifflin neu Emma Turner-Evans.

Diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth.